

# *Ymholiad ar dudalen: I ba raddau mae prosesau gorfodol ysgol gyfan yn datblygu meddylfryd ymholi athrawon?*

*James Wall a Sarah Carroll*

## CRYNODEB

Mae'r astudiaeth hon yn archwilio datblygiad meddylfryd ymholi ymhlith athrawon trwy'r broses "Ymholiad ar Dudalen" (EoaP), menter ysgol gyfan orfodol sy'n ymateb i newidiadau mewn polisi addysgol sy'n pwysleisio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes yn tanlinellu pwysigrwydd datblygiad proffesiynol strwythuredig wrth feithrin meddylfryd o'r fath (Tripney *et al.*, 2018; Sharples *et al.*, 2019). Roedd yr ymchwil yn cynnwys cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda phump o athrawon, a ddewiswyd yn seiliedig ar ymatebion arolwg i archwilio safbwyntiau amrywiol. Datgelodd dadansoddiad thematig fanteision canfyddedig y broses Ymholiad ar Dudalen, ynghyd â heriau sy'n gysylltiedig ag ymreolaeth a llwyth gwaith. Mae'r canfyddiadau'n nodi, er y gall y broses Ymholiad ar Dudalen wella myfyrio a chydweithrediad pedagogaidd, mae'n rhaid ei theilwra i anghenion athrawon unigol i wneud y mwyaf o ymgysylltu ac effeithiolrwydd. Mae'r astudiaeth hon yn cyfrannu at y drafodaeth ar ymchwil weithredu mewn addysg trwy ddarparu dealltwriaeth o gymhlethdodau gweithredu newid systemig mewn arferion datblygu proffesiynol.

**Geiriau allweddol:** Meddylfryd ymholi, datblygiad proffesiynol, addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ymchwil weithredu, cydweithrediad athrawon.

### Cyflwyniad

Mae'r astudiaeth hon yn ymchwilio i'r potensial o ddatblygu meddylfryd ymholi ymhlith athrawon trwy fenter orfodol, ysgol gyfan, yn benodol y broses 'Ymholiad ar Dudalen' (EoaP). Mae'r ysgogiad ar gyfer yr ymchwil hwn yn deillio o newidiadau sylweddol mewn polisi addysgol sy'n pwysleisio arferion addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel yr amlygwyd gan gwricwlwm newydd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2024) a thueddiadau ehangach y DU (Sharples *et al.*, 2019). Mae'r fframwaith damcaniaethol a sefydlwyd gan Tripney *et al.* (2018) yn tanlinellu pwysigrwydd datblygiad proffesiynol strwythuredig a chefnogaeth sefydliadol wrth feithrin meddylfryd o'r fath.

Mae'r broses Ymholiad ar Dudalen yn ceisio cydbwysu ymchwil agos at ymarfer sy'n canolbwyntio ar addysgeg gyda gofynion ysgol ehangach ar gyrhaeddiad disgyblion. Trwy integreiddio ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol strwythuredig, nod yr Ymholiad ar Dudalen yw gwella sgiliau addysgegol athrawon a meithrin meddylfryd ymholi cynaliadwy. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd ag argymhellion Evans *et al.* (2017), sy'n dadlau dros ddatblygiad proffesiynol sy'n cyfuno dysgu cydweithredol ac arbrofi gweithredol.

### Llenyddiaeth

Mae'r llenyddiaeth (Sharples *et al.*, 2019) yn tanlinellu'r newidiadau sylweddol mewn polisiâu addysgol sy'n anelu at ddatblygiad athrawon a newidiadau i'r cwricwlwm ledled y DU. Mae'r newidiadau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd arferion addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel yr amlygwyd yn y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2024). Yn ehangach, mae addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi ennill amlygrwydd fel y dangosir gan gyhoeddiad llywodraeth y DU ar werthuso cynnydd mewn addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn Lloegr (Sharples *et al.*, 2019).

Mae ymchwil ar ddatblygiad proffesiynol a newid systemig, fel Tripney *et al.* (2018), yn darparu sylfaen ar gyfer deall sut y gellir datblygu meddylfryd ymholi. Maent yn trafod pa mor ddwfn mae credoau ac arferion athrawon wedi'u dylanwadu gan ddatblygiad proffesiynol strwythuredig a chefnogaeth sefydliadol barhaus.

Mae erthyglau gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Tripney et al. (2018) ac Adroddiad Canllawiau Gweithredu EEF, Nelson et al. (2017) yn awgrymu bod fframweithiau sefydliadol cefnogol yn hanfodol wrth hwyluso datblygiad athrawon. Mae'r fframweithiau hyn yn helpu i alinio'r prosesau mandadol ag arferion dyddiol ac anghenion twf proffesiynol yr athrawon.

Mae ymchwil gan Evans et al. (2017) yn archwilio amrywiol strategaethau datblygu proffesiynol sy'n annog mabwysiadu meddylfryd ymholi. Mae eu canfyddiadau yn eirioli dros ddatblygiad proffesiynol sy'n integreiddio dysgu cydweithredol ac arbrofi gweithredol, gan alinio'n dda ag amcanion polisiâu ysgol gyfan.

Mae'r astudiaeth gan Nelson a Campbell (2019) yn tynnu sylw at y ffaith bod athrawon yn gweld prosesau gorfodol fel cyfleoedd neu gyfyngiadau yn aml, yn dibynnu ar sut mae'r mentrau hyn yn cydfynd â'u cymhellion cynhenid a'r perthnasedd canfyddedig i'w harferion addysgu. Mae'r persbectif hwn yn hollbwysig i ddeall effaith bosibl 'Ymholiad ar Dudalen' ac fe'i datblygir yn ystod y broses ymchwil.

Trafodir pwysigrwydd cydweithio wrth feithrin meddylfryd ymholi mewn sawl astudiaeth, gan gynnwys gwaith gan Bryk et al. (2011), sy'n pwysleisio bod rhannu arferion gorau ac ymholiadau cydweithredol yn allweddol mewn datblygiad proffesiynol llwyddiannus.

Mae Tripney et al. (2018) yn tynnu sylw at yr angen am bolisiau sy'n addasu i anghenion a chyd-destunau athrawon unigol. Rhaid i ddatblygiad proffesiynol effeithiol ystyried yr amgylcheddau addysgol amrywiol a'r cefndiroedd addysgu, gan sicrhau bod y rhaglenni datblygu yn berthnasol ac yn hygyrch i bob athro.

Yn olaf, mae'r llenyddiaeth (Sharples et al., 2019; Tripney et al., 2018) yn tynnu sylw'n gyson at ganlyniadau cadarnhaol polisiâu ysgol gyfan wedi'u gweithredu'n dda ar ymarfer athrawon a dysgu disgyblion. Mae'r astudiaethau hyn yn darparu dealltwriaeth werthfawr o sut y gellir llunio polisi i gefnogi datblygiad parhaus meddylfryd ymholi ymhlith athrawon.

Mae'r adolygiad byr hwn yn dod i'r casgliad bod datblygu meddylfryd ymholi trwy brosesau ysgol gyfan mandadol yn gofyn am ddull cytbwys sy'n ystyried y strwythurau cymorth systemig ac anghenion unigol athrawon. Mae'n galw hefyd am ymchwil bellach i effeithiau penodol prosesau o'r fath ar ddatblygiad athrawon a chanlyniadau myfyrwyr yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd yng Nghymru.

## *Dulliau*

### *Moeseg*

Cynhaliwyd yr ymchwil hwn gydag ymrwymiad cryf i safonau moesegol, gan sicrhau bod hawliau a lles yr holl gyfranogwyr yn cael eu blaenoriaethu trwy gydol yr astudiaeth. Cafwyd caniatâd gwybodus gan yr holl gyfranogwyr cyn iddynt gymryd rhan, gan sicrhau eu bod yn deall pwrpas yr ymchwil, eu hawliau, a sut y byddai eu data yn cael ei ddefnyddio (Denscombe, 2017). Cafodd cyfranogwyr eu sicrhau o'u hanhysbysrwydd a'u cyfrinachedd, gan feithrin amgylchedd diogel ar gyfer cyfathrebu gonest ac agored. Ar ben hynny, rhoddwyd gwybod i gyfranogwyr am eu hawl i dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg heb unrhyw effeithiau (BERA, 2024). Cymeradwyodd uwch arweinwyr yr astudiaeth am gadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA, 2024).

Mae'r ymrwymiad hwn i ymarfer moesegol yn cyd-fynd â safonau'r gymuned ymchwil addysgol ehangach, gan sicrhau bod uniondeb yr ymchwil yn cael ei gynnal wrth ddiogelu urddas a hawliau cyfranogwyr (Wyse et al., 2021). Trwy greu amgylchedd ymchwil tryloyw, nod yr astudiaeth oedd hyrwyddo ymddiriedaeth ac annog ymgysylltiad ystyrlon gan gyfranogwyr.

### *Gweithdrefn samplu a disgrifiad ohoni*

Cynhyrchwyd y sampl ar gyfer yr astudiaeth hon trwy ddull systematig gyda'r nod o gael cynrychiolaeth amrywiol o staff addysgu sy'n ymwneud â'r broses 'Ymholiad ar Dudalen'. I ddechrau, dosbarthwyd arolwg byr i'r holl staff addysgu i gasglu dealltwriaeth ragarweiniol a nodi meysydd o ddiddordeb i'w harchwilio ymhellach. Nod yr arolwg oedd dal ystod eang o safbwyntiau ar y broses Ymholiad ar Dudalen, gan sicrhau bod y sampl yn adlewyrchu lefelau amrywiol o ymgysylltu a phrofiad ymhlith yr athrawon. Nid oedd yr arolwg yn orfodol ac ni chafodd ei anfon gan uwch arweinydd, gan ddileu unrhyw fandad goblygedig.

O ganlyniadau'r arolwg, dewiswyd pum athro ar gyfer cyfweiliadau lled-strwythuredig. Er mwyn sicrhau amrywiaeth o farn ar y broses

Ymholiad ar Dudalen, rhannwyd athrawon yn bum grŵp yn seiliedig ar yr ymateb i gwestiwn yr arolwg 'roedd cwblhau'r "Ymholiad ar Dudalen" yn cefnogi fy natblygiad proffesiynol'. Y grwpiau oedd; cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, anghytuno ac anghytuno'n gryf. Mae'r dull hwn nid yn unig yn hwyluso archwiliad dyfnach o brofiadau unigol ond yna'n hwyluso dewis athrawon o wahanol feysydd pwnc a gwahanol flynyddoedd o brofiad addysgu, a thrwy hynny wella cyfoeth y data ansoddol (Cochran-Smith a Lytle, 2009).

Mae'r dull samplu yn cydnabod y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â maint sampl bach a'r potensial ar gyfer rhagfarn hunanddewis, gan y gallai'r rhai a ymatebodd fod wedi bod yn fwy tueddol o ymgysylltu â'r ymchwil oherwydd barn gryfach am y broses Ymholiad ar Dudalen (Denscombe, 2017). Serch hynny, mae'r ddealltwriaeth a gafwyd o'r sampl amrywiol yn cyfrannu safbwyntiau gwerthfawr ar weithredu ac effeithiolrwydd y fenter ymchwil weithredu.

### *Cynhyrchu a dadansoddi data*

Cynhyrchwyd data ar gyfer yr astudiaeth hon trwy'r dull ansoddol o gyfweiliadau lled-strwythuredig. Cynhaliwyd y cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda'r pum athro a ddewiswyd, gan ganiatáu archwiliad manwl o'u profiadau a'u dealltwriaeth ynghylch y fenter Ymholiad ar Dudalen. Mae'r dull hwn yn hwyluso llif sgwrsio, gan alluogi cyfranogwyr i rannu eu meddyliau wrth sicrhau bod pynciau allweddol yn cael eu cynnwys (Cohen et al., 2018).

Cafodd y cyfweiliadau eu recordio, eu trawsgrifio a'u dadansoddi'n thematig i nodi themâu a phatrymau ailadroddus a ddaeth i'r amlwg o'r data. Mae'r dull hwn yn gyson ag arferion gorau ymchwil ansoddol, gan ganiatáu ar gyfer dealltwriaeth amlweddol o brofiadau'r cyfranogwyr (Braun and Clarke, 2017). Cynhaliwyd y dadansoddiad thematig mewn sawl cam: ymgysylltu â'r data, codio cychwynnol, datblygu themâu, ac adolygu themâu, gan sicrhau proses ddadansoddi drylwyr sy'n adlewyrchu lleisiau cyfranogwyr yn gywir (Braun a Clarke, 2012). Cynhaliwyd y cyfweiliadau gan aelod o'r corff staff addysgu. Nid oeddent yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth, ac roedd cyfranogwyr yn gwybod y byddai eu hymatebion yn cael eu troi'n ddiennw cyn i uwch arweinwyr eu darllen.

Datgelodd y dadansoddiad sawl thema allweddol, gan gynnwys perthnasedd ymarferol y broses Ymholiad ar Dudalen, rôl cydweithredu ymhlith athrawon, a'r heriau a wynebwyd wrth weithredu. Trwy ddefnyddio dull systematig o gynhyrchu a dadansoddi data, mae'r astudiaeth yn darparu dealltwriaeth o sut y gall ymchwil weithredu sy'n agos at ymarfer lywio datblygiad athrawon yn ystyrion a gwella canlyniadau addysgol (Cochran-Smith a Demers, 2010).

I gloi, mae'r fframwaith methodolegol a fabwysiadwyd yn yr astudiaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd ystyriaethau moesegol, samplu meddylgar, a dadansoddiad data cadarn wrth archwilio cymhlethdodau ymchwiliad dan arweiniad athrawon yng nghyd-destun y broses Ymholiad ar Dudalen. Mae'r fframwaith hwn nid yn unig yn cyfrannu at y corff presennol o lenyddiaeth ar ymchwil weithredu mewn addysg ond hefyd yn gweithredu fel canllaw ymarferol ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol sy'n ceisio pontio'r bwlch rhwng ymchwil ac ymarfer.

### *Canlyniadau a thrafodaeth*

Mae canfyddiadau'r cyfweiliadau lled-strwythuredig wedi'u trefnu'n dair thema: manteision canfyddedig y broses 'Ymholiad ar Dudalen', cyfyngiadau a heriau, a'r effaith a gafodd y broses Ymholiad ar Dudalen ar y meddylfryd ymholi.

#### *Manteision Canfyddedig y Broses Ymholiad ar Dudalen*

Mae'r dyfyniadau canlynol yn awgrymu bod y broses Ymholiad ar Dudalen yn darparu amser strwythuredig i athrawon ganolbwyntio ar feysydd datblygu penodol, y mae llawer yn ei chael yn werthfawr ar gyfer myfyrio a gwella eu harferion pedagogaid:

'Gan ei bod wedi bod yn gryn amser ers fy hyfforddiant, roedd yn ddefnyddiol ailfeddwl am addysgeg ac ailfeddwl am y dysgu rydw i wedi'i wneud dros y blynyddoedd.' – Amy

'Mae myfyrio ar a yw [yr ymholiad] yn gweithio mewn gwirionedd wedi bod yn ddefnyddiol.' – Bea

'Roedd yn fy nghefnogi yn bennaf oherwydd yr amser a roddwyd i ganolbwyntio arno ac edrych ar rywbeth penodol yr oeddech chi eisiau ei ddatblygu. Roedd yr amser ymroddedig i ddatblygu rhywbeth yn ddefnyddiol iawn.' – Em

Mae'r llenyddiaeth yn tanlinellu pwysigrwydd datblygiad proffesiynol strwythuredig wrth wella ymarfer athrawon (Sharples et al., 2019; Tripney et al., 2018). Rhoddodd y broses Ymholiad ar Dudalen amser pwrpasol i athrawon a dull strwythuredig i fyfyrion ar eu harferion pedagogaid a'u gwella. Dangosodd cyfranogwyr fel Amy fod myfyrdod yn hanfodol ar gyfer twf proffesiynol parhaus, fel y pwysleiswyd gan Evans et al. (2017). Roedd natur strwythuredig y broses Ymholiad ar Dudalen yn caniatáu i athrawon ganolbwyntio ar feysydd penodol yr oeddent am eu datblygu. Gall tirwedd bresennol datblygiad proffesiynol deimlo'n dameidiog yn aml, gydag ansawdd a chydlyniant amrywiol. Yng Nghymru, nod adolygu safonau proffesiynol yw aliniad disgwyliadau athrawon â diwygiadau'r cwricwlwm. Mae datblygiad proffesiynol strwythuredig yn rhan annatod o'r aliniad hwn, gan helpu athrawon symud ymlaen o ddeall ymchwil i wneud penderfyniadau addysgegol yn seiliedig arni. Roedd y broses Ymholiad ar Dudalen yn darparu datblygiad proffesiynol strwythuredig a oedd yn meithrin cydweithrediad cymheiriad ymhlith athrawon. Mae'r broses Ymholiad ar Dudalen wedi gwella'r broses rannu gwybodaeth seiliedig ar brofiadol a gwybodaeth seiliedig ar ymchwil hefyd, gan arwain at well arferion addysgu ledled yr ysgol.

### *Cyfngiadau a Heriau*

Er gwaethaf y manteision, mynegodd sawl athro bryderon ynghylch ymreolaeth, perthnasedd, a llwyth gwaith ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys:

'Rydyn ni'n ei wneud yn naturiol ac mae hyn yn cymryd rhywfaint o'r ymreolaeth dros ein datblygiad proffesiynol ein hunain oddi arnom.' – Dani

'Roedd yn braf cael amser i wneud rhywbeth ond mae'n well defnyddio'r amser hwnnw ar yr hyn rydyn ni eisiau, angen ei wneud.' – Caz

‘Roedd darllen yn ychwanegu at y llwyth gwaith pan oedd pethau eraill i’w gwneud. Doeddwn i ddim yn ei gweld hi’n hawdd ei wneud. Roedd yn eithaf brawychus treulio oriau yn darllen pethau nad oeddent o fudd i’w pwnc o reidrwydd.’ – Amy

Roedd argaeledd adnoddau yn bryder hefyd, yn enwedig o ran dod o hyd i lenyddiaeth berthnasol. Fel y dywedodd Bea: ‘Roedd dod o hyd i lenyddiaeth academiaidd pwnc-benodol yn anodd.’

Dylai datblygiad proffesiynol fod yn benodol i’w gyd-destun ac wedi’i deilwra i anghenion athrawon unigol (Tripney et al., 2018). Fodd bynnag, roedd rhai athrawon yn teimlo bod natur orfodol y broses Ymholiad ar Dudalen yn cyfyngu ar eu hymreolaeth ac yn ychwanegu at eu llwyth gwaith heb berthnasedd clir i’w cyd-destunau penodol. Mynegodd Dani’r pryder hwn. Roedd Amy yn gweld y darllen ychwanegol yn feichus. Mae Tripney et al. (2018) yn cydnabod bod athrawon yn teimlo’n aml eu bod wedi’u llethu gan y gofynion a roddir arnynt, yn enwedig mewn perthynas ag ymgysylltu â thystiolaeth ymchwil. Mae’r gydnabyddiaeth hon yn dilysu profiadau athrawon sy’n cael trafferth cydbwysio eu cyfrifoldebau addysgu gyda’r angen i gael gwybod am arferion gorau a chanfyddiadau ymchwil. Mae Tripney et al. (2018) yn tynnu sylw at yr angen am systemau cymorth strwythuredig a chydlynol. Maent yn nodi bod arweinwyr ysgol yn gwneud penderfyniadau’n aml ynghylch pa fathau o gymorth i’w derbyn heb gael yr amser na’r wybodaeth i werthuso eu hansawdd. Mae hyn yn awgrymu y gallai dull mwy trefnus o ymdrin â datblygiad proffesiynol leddfdu rhywfaint o’r pwysau llwyth gwaith trwy ddarparu arweiniad a chefnogaeth gliriach.

### *Effaith ar feddylfryd ymholi*

Nod y broses Ymholiad ar Dudalen oedd meithrin meddylfryd ymholi ymhlith athrawon, gan annog cwestiynau beirniadol a myfyrio. Datgelodd y cyfweiliadau ganlyniadau cymysg:

‘Fe wnaeth fy nysgu i feddwl ac ymdrin â phethau’n wahanol ac fe’m harweiniodd i rannu fy mhrofiadau fy hun gyda disgyblion yn fwy.’ – Bea

‘Byddai’n helpu cael mwy o amser i adeiladu ar draws perthnasoedd adran.’ – Amy



Roedd rhai yn ei weld yn ysgogol oherwydd ei natur strwythuredig, tra bod eraill yn teimlo ei fod yn dasg ychwanegol.

'Roedd yn gwneud i mi orfod ei wneud - fe wnaeth fy ngorfodi i'w wneud. Pan wnes ati i'w wneud, fe gefais i dipyn o fwynhad ac fe wnaeth hynny fy ysgogi i' - Bea

'Roeddwn i'n edrych arno fel cyfle i ddatblygu ac fe wnes i ei fwynhau mewn ffordd a gweld sut roedd yn newid pethau y byddwn i'n eu gwneud yn y dosbarth.' - Caz

'Mae gwahaniaeth rhwng sut mae'n fy ysgogi fel person yn hytrach na sut mae'n fy ysgogi fel athro. Dydw i ddim yn ymateb yn dda i rywun yn dweud bod yn rhaid i mi wneud rhywbeth.' - Amy

Awgrymodd cyfranogwyr ffyrdd o addasu'r broses Ymholiad ar Dudalen i gefnogi cymhelliant yn well, er enghraifft:

'Ysgogwyr? - yr amser i'w wneud, dewis ffocws, i bwy y gallwn ei gyflwyno, sut y gallwn ei gyflwyno.' - Dani

'Efallai gofyn i staff pryd fyddai'r amser gorau o'r flwyddyn i'w gyflawni.' - Em

Roedd cymhelliant ac ymgysylltu yn themâu allweddol, gydag ymatebion cymysg gan athrawon. Roedd rhai yn gweld natur orfodol y broses Ymholiad ar Dudalen yn ysgogol, tra bod eraill yn teimlo ei fod yn waith ychwanegol. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau Nelson ac O'Beirne (2014), sy'n tynnu sylw at y ffaith bod tystiolaeth allanol yn cael ei ystyried weithiau fel rhywbeth sy'n tarfu ar ymreolaeth broffesiynol athrawon. Gall y canfyddiad hwn greu rhwystrau i dderbyn ac integreiddio canfyddiadau ymchwil i ymarfer athrawon, gan fod athrawon yn teimlo bod eu harbenigedd yn cael ei danseilio. Roedd Bea yn gweld cyfranogiad gorfodol yn fuddiol. Fodd bynnag, pwysleisiodd Amy'r angen am fwy o bersonoli. Nod y broses Ymholiad ar Dudalen oedd datblygu meddylfryd ymholi ymhlith athrawon, gan annog cwestiynu beirniadol ac ymarfer myfyriol. Er bod rhai athrawon wedi sôn am ddatblygiadau cadarnhaol, roedd eraill yn teimlo y gallai'r broses fod yn fwy effeithiol pe bai'n ymgorffori dulliau mwy cydweithredol a chyd-destun-benodol. Gallai meithrin mwy o gydweithredu o fewn ac ar draws adrannau wella'r broses. Mae trafodaethau cydweithredol am

ganfyddiadau ymchwil yn hanfodol i athrawon ddeall a chymhwyso tystiolaeth allanol yn effeithiol (Nelson ac O’Beirne, 2014).

### *Casgliad*

Mae’r broses Ymholiad ar Dudalen yn pontio tirwedd dameidiog datblygiad athrawon yn effeithiol trwy sefydlu dull systematig o ymchwil weithredu ar gyfer pob athro. Trwy gylchoedd ymchwilio cydweithredol pwrpasol, mae athrawon yn cael dealltwriaeth newydd o’u harferion. Roedd Ymholiad ar Dudalen yn annog ymarfer myfyriol a gwneud penderfyniadau sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd y broses hon yn effeithiol wrth gyd-destunoli tystiolaeth ymchwil allanol i strategaethau pedagogaidd ymarferol i’w defnyddio yn yr ystafell ddsbarth. Trwy ymgorffori’r cylchoedd ymholiadau hyn mewn datblygiad proffesiynol parhaus, gall ysgolion sicrhau bod athrawon yn ymgysylltu’n barhaus ag ymchwil, gan ei gwneud yn rhan reolaidd o’u hymarfer proffesiynol yn hytrach na digwyddiad un-tro.

### *Cydnabyddiaeth*

Mae’r awduron yn datgan nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau ac nad oedd cyllid wedi’i dderbyn ar gyfer yr astudiaeth hon.

### *Cyfeiriadau*

- Clarke, V. a Braun, V., (2017). Thematic analysis, *The journal of positive psychology*, 12(3), tt. 297–8.
- British Educational Research Association (BERA) (2024), *Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition*. [ar lein] Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2024>
- Bryk, A. S., Gomez, L. M., Grunow, A., a Hallinan, M. T. (2011). Getting ideas into action: Building networked improvement communities in education. Yn M. Hallinan (gol.), *Frontiers in sociology of education* (tt. 127–62). Springer. [https://doi.org/10.1007/978-94-007-1576-9\\_7](https://doi.org/10.1007/978-94-007-1576-9_7)
- Cochran-Smith, M., a Lytle, S. (2009). *Inquiry as stance: Practitioner research for the next generation*. Teachers College Press.

- Cochran-Smith, M., a Demers, K. (2010), 'Research and teacher learning: Taking an inquiry stance. Yn O. Kwo (gol.), Teachers as learners. CERC studies in comparative education (Cyfrol 26). Springer. [https://doi.org/10.1007/978-90-481-9676-0\\_2](https://doi.org/10.1007/978-90-481-9676-0_2)
- Cohen, L., Manion, L., a Morrison, K., (2018). *Research Methods in Education*. 8ed argraffiad. London: Routledge.
- Denscombe, M., (2017). *The Good Research Guide: For Small-Scale Social Research Projects*. 4ydd argraffiad. Maidenhead: Open University Press.
- Evans, C., Waring, M., a Christodoulou, A. (2017). Building teachers' research literacy: Integrating practice and research. *Research Papers in Education*, 32(4), 403–23. <https://doi.org/10.1080/02671522.2017.1322357>
- Llywodraeth Cymru (2024). *Cwricwlwm i Gymru: Canllawiau ar gyfer y cwricwlwm newydd*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-gymru>
- Nelson, J. a Campbell, C. (2019). Using evidence in education. Yn: A. Boaz, H. Davies, A. Fraser S. Nutley (goln), What works now? Evidence-informed policy and practice revisited (tt. 131–49). Policy Press.
- Nelson, J. a O'Beirne, C. (2014). *Using Evidence in the Classroom: What Works and Why?* NFER. <http://dera.ioe.ac.uk/id/eprint/27753>
- Nelson, J., Mehta, P., Sharples, J. a Davey, C. (2017). Measuring teachers' research engagement: Findings from a pilot study. Education Endowment Foundation
- Tripney, J., Gough, D., Sharples, J., Lester, S., a Bristow, D. (2018). Promoting teacher engagement with research evidence. *Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru*. <https://discovery.ucl.ac.uk/id/eprint/10067753/1/Tripney%20et%20al.%20%282018%29.pdf>
- Sharples, J., Albers, B., Fraser, S., a Kime, S. (2019). Putting evidence to work: A school's guide to implementation: guidance report. Education Endowment Foundation. <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED612284.pdf>
- Wyse, D., Brown, C., Oliver, S., a Poblete, X. (2021). Education research and educational practice: The qualities of a close relationship. *British Educational Research Journal*, 47(6), 1466–89.

### Atodiad

Holiadur Staff Cyfan

Atebion Dewis Lluosog: Cytuno'n gryf; Cytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Anghytuno; Anghytuno'n Gryf

Roedd cwblhau'r 'Ymholiad ar Dudalen' yn cefnogi fy natblygiad proffesiynol.

Cynyddodd cwblhau'r 'Ymholiad ar Dudalen' fy niddordeb mewn ymchwil addysg.

Roedd natur orfodol yr 'Ymholiad ar Dudalen' yn fy ysgogi i gymryd rhan.

Pe bai'r 'Ymholiad ar Dudalen' yn wirfoddol, byddwn wedi cymryd rhan yn y broses.

Mae'r broses 'Ymholiad ar Dudalen' wedi gwella'r addysgu a'r dysgu yn fy ystafell ddosbarth.

Cwestiynau cyfweiliad lled-strwythuredig

Roedd rhai ohonoch wedi ateb ar yr holiadur bod y broses Ymholiad ar Dudalen yn cefnogi eich datblygiad proffesiynol. Allech chi esbonio sut mae wedi gwneud hynny? Neu beth sydd wedi newid i chi o ganlyniad i'r broses Ymholiad ar Dudalen? Efallai y gallwch ystyried y gweithgareddau wnaethoch chi ymgymryd â nhw o ganlyniad (arsylwi ar gymheiriaid, darllen, trafodaethau, cydweithio, edrych ar eich dosbarth yn wahanol, ac ati.)

Roedd rhai ohonoch yn teimlo nad oedd yr Ymholiad ar Dudalen yn cefnogi eich datblygiad proffesiynol. Allech chi esbonio pam roeddech chi'n teimlo hynny a beth hoffech chi ei weld yn cael ei wneud yn wahanol fel y bydd yn eich cefnogi chi mewn blwyddyn yn y dyfodol?

Hoffem ddeall a yw'r broses Ymholiad ar Dudalen wedi eich helpu i ddatblygu eich meddylfryd ymholi (gofyn cwestiynau beirniadol, bod yn wrthrychol, bod yn chwilfrydig, peidio â rhagfarnu'r atebion i broblemau). Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well ymholwr nawr nag ar ddechrau'r flwyddyn? Beth ydych chi'n meddwl fyddai'n eich helpu chi i fod yn well ymholwr?

Roedd rhaniad yn yr holiadur a oedd yn awgrymu fod rhai ohonoch wedi eich cymell i gymryd rhan yn y broses Ymholiad ar Dudalen ond na fydddech yn ei wneud os nad oedd yn orfodol. Roedd yna eraill nad oedden nhw wedi'u hysgogi gan y broses o gwbl. Allwch chi esbonio pam ei fod wedi eich ysgogi, beth fyddai'n gorfod newid i'ch cymell i'w wneud a beth fyddai'n newid i wneud i chi fod eisiau ei wneud yn wirfoddol?